Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deall masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE ers Brexit

## Cyfres masnach ryngwladol

Mehefin 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deall masnach nwyddau rhwng Cymru a'r UE ers Brexit

## Cyfres masnach ryngwladol

Mehefin 2026

**Awdur:**
Sara Moran a Josh Jenkins

Ers 1 Ionawr 2021, mae cytundeb masnach y DU a'r UE wedi gosod y rheolau ar gyfer masnach rhyngddynt. Gelwir y cytundeb yn Gytundeb Masnach a Chydweithredu. Yn 2025, roedd yr UE yn cyfrif am 47% o fasnach nwyddau rhyngwladol Cymru yn ôl gwerth a 60% yn ôl cyfaint.

Mae'r canllaw hwn yn rhan o'n cyfres masnach ryngwladol. Mae'n egluro:

- Lle mae'r UE ar y rhestr o bartneriaid masnachu Cymru;
- Pa nwyddau y mae Cymru'n eu masnachu â'r UE;
- Pa sectorau yng Nghymru sy'n dibynnu fwyaf ar fasnachu â'r UE;
- Masnach cyn ac ar ôl Brexit;
- Sawl busnes yng Nghymru sy'n masnachu â'r UE;
- Pam roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn credu bod Brexit yn effeithio'n anghymesur ar Gymru o'i gymharu â gweddill y DU.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Cynnwys

**1. Partner masnachu gwerth uchaf Cymru .................................... 7**

Allforion ........................................................................................................ 7

Mewnforion .................................................................................................. 8

**2. Beth mae Cymru’n ei fasnachu â’r UE? ....................................... 9**

Allforion ........................................................................................................ 9

Mewnforion .................................................................................................. 10

**3. Pa sectorau sy’n dibynnu fwyaf ar fasnachu â’r UE? .............. 11**

**4. Masnach cyn ac ar ôl Brexit ........................................................... 13**

**5. Sawl busnes yng Nghymru sy’n masnachu â’r UE? ................ 14**

Busnesau yng Nghymru sy’n masnachu â phartneriaid y tu allan i’r UE .................................................................................................................. 14

**6. Pam y gallai Brexit effeithio'n anghymesur ar Gymru? ........ 16**

Dibyniaeth ar allforio i’r UE ....................................................................... 16

Daearyddiaeth .............................................................................................. 17




# 1. Partner masnachu gwerth uchaf Cymru

## Yn 2025, cyfanswm gwerth masnach nwyddau Cymru oedd £39.5 biliwn, ac roedd £18.4 biliwn (46.6%) o'r swm hwn yn fasnach â'r UE.

Mae hyn yn golygu mai'r UE yw ei phartner masnachu gwerth uchaf, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod. Er cyd-destun, dangosir ail a thrydydd partner mwyaf Cymru, UDA a Tsieina, yn ogystal â 'Gweddill y byd'.

**Ffigur 1: Partneriaid masnachu gwerth uchaf Cymru (2025)**




Ffynhonnell: Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol (Llywodraeth Cymru, 2026)

### Allforion

Gwerth allforion Cymru i'r UE oedd £10.7 biliwn yn 2025. Mae Ffigur 2 yn dangos pum cyrchfan allforio mwyaf yr UE.

**Ffigur 2: Pum cyrchfan allforio gwerth uchaf yr UE (2025)**




Ffynhonnell: Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol (Llywodraeth Cymru, 2026)

## Mewnforion

Gwerth mewnforion yr UE i Gymru oedd £7.7 biliwn yn 2025. Mae Ffigur 3 yn dangos y pum Aelod-wladwriaeth o'r UE sy'n mewnforio mwyaf i'r DU.

**Ffigur 3: Pum cyrchfan mewnforio gwerth uchaf yr UE (2025)**




Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

# 2. Beth mae Cymru'n ei fasnachu â'r UE?


## Peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth sy'n dominyddu masnach rhwng Cymru a'r UE.

Mae hyn yn cynnwys cerbydau ffordd, peiriannau cynhyrchu pŵer (fel boeleri, injans a thyrbinau), cyfarpar telathrebu a pheiriannau arbenigol.

### Allforion

Ynghyd â thanwydd mwynol (fel petrol), nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu (fel haearn a dur) a chemegau (fel meddyginiaethau), roedd y nwyddau hyn yn cyfrif am dros 87% o allforion Cymru i'r UE yn 2025. Mae Ffigur 4 yn dangos allforion Cymru i'r UE yn 2025.

**Ffigur 4: Allforion Cymru i'r UE yn ôl categori nwyddau (yn ôl canran y gwerth; 2025)**





Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

## Mewnforion

Ynghyd â nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a chemegau, mae peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth yn cyfrif am dros 70% o fewnforion yr UE i Gymru yn 2025. Mae Ffigur 5 yn dangos mewnforion yr UE.

**Ffigur 5: Mewnforion yr UE i Gymru yn ôl categori nwyddau (yn ôl canran y gwerth; 2025)**





Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

# 3. Pa sectorau sy'n dibynnu fwyaf ar fasnachu â'r UE?

## Mae rhai diwydiannau yng Nghymru yn fwy dibynnol ar fasnachu â'r UE nag eraill.

Mae Ffigur 6 yn dangos canran allforion yr UE yn ôl categori nwyddau. Yn 2025, aeth dros 83% o olewau, brasterau a chwyr anifeiliaid a llysiau a allforiwyd o Gymru i'r UE, sy'n golygu mai hwn yw'r categori sy'n dibynnu fwyaf ar fasnachu â'r UE. Roedd hyd yn oed y ganran isaf yn uchel, gyda 43% o ddeunyddiau crai wedi'u hallforio o Gymru i'r UE.

**Ffigur 6: Canran allforion yr UE yn ôl categori nwyddau (2025; yn ôl gwerth)**




Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)


Mae hyn yn rhoi cipolwg pwysig ar ba mor ddibynnol yw gwahanol sectorau ar allforio i'r UE.

Gellir cymharu'r ddibyniaeth hon hefyd â chyfraniad diwydiant at allforion Cymru i'r UE yn gyffredinol. Er enghraifft, aeth tua 73% o allforion bwyd a diod Cymru i'r UE ond roeddent yn cyfrif am ychydig dros 6% o gyfanswm gwerth ei hallforion i'r UE. I'r gwrthwyneb, aeth tua 50% o allforion peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth i'r UE yn 2025 ac roeddent yn cyfrif am ychydig dros 43% o werth allforion yr UE yn gyffredinol.

Er efallai nad yw'r diwydiannau hyn yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm gwerth allforion yr UE, maent yn aml yn ddiwydiannau allweddol sydd ag arwyddocâd ehangach i Gymru. Gan eu bod mor ddibynnol ar allforio i'r UE, maent yn fwy agored i newidiadau mewn amodau masnachu.

Mae Ffigur 7 yn edrych ar sut mae dibyniaeth diwydiant yn cymharu â'i gyfraniad cyfatebol i allforion yr UE yn gyffredinol.

**Ffigur 7: Dibyniaeth sectorau ar allforio i'r UE gyda chyfraniad at allforion cyffredinol yr UE (2025; yn ôl gwerth)**





Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

# 4. Masnach cyn ac ar ôl Brexit

## Mae cymharu ystadegau masnach cyn ac ar ôl Brexit yn heriol oherwydd bod newidiadau wedi'u gwneud ar y pryd i ddarparu ar gyfer gweithdrefnau tollau a dulliau casglu data newydd.

Serch hynny, gellir gweld rhai tueddiadau. Er enghraifft, bu gostyngiad sydyn mewn masnach yn ôl gwerth a chyfaint rhwng 2019 a 2020 yn ystod pandemig Covid-19 ac wrth i Brexit agosáu. Nid yw cyfaint y fasnach â'r UE wedi adfer ers hynny, er bod ei gwerth wedi codi a gostwng. Mae Ffigur 8 yn dangos newidiadau yng ngwerthoedd a chyfeintiau masnach rhwng Cymru a'r UE rhwng 2013 a 2025 o'u cymharu â 2013.

**Ffigur 8: Newid yng ngwerthoedd (£bn) a chyfeintiau (kg) masnach rhwng Cymru a'r UE (2013-2025) o'u cymharu â 2013**





Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol: dangosfwrdd rhyngweithiol** (Llywodraeth Cymru, 2026)

# 5. Sawl busnes yng Nghymru sy'n masnachu â'r UE?

## Gostyngodd nifer y busnesau yng Nghymru sy'n masnachu â'r UE ar ôl 2021, pan ddaeth y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE i rym ar ôl Brexit.

Erbyn 2024, nid oedd 207 o fusnesau yn allforio i'r UE mwyach (gostyngiad o 5.3%) ac roedd 289 yn llai o fusnesau yn dod â mewnforion yr UE (gostyngiad o 4.7%). Gellir gweld hyn yn Ffigur 9.

**Ffigur 9: Nifer y busnesau yng Nghymru sy'n masnachu â'r UE (2021-2024)**




Ffynhonnell: **Ystadegau masnach nwyddau rhanbarthol y DU wedi'u gwahanu yn ardaloedd daearyddol llai** (Llywodraeth y DU, 2026)

Oherwydd newidiadau i ffynonellau data, nid oes modd cymharu'r niferoedd hyn â blynyddoedd cyn 2021.


### Busnesau yng Nghymru sy'n masnachu â phartneriaid y tu allan i'r UE

Dros yr un cyfnod (2021-2024), cynyddodd nifer y busnesau yng Nghymru sy'n mewnforio o wledydd y tu allan i'r UE tra bod nifer y busnesau sy'n allforio i wledydd y tu allan i'r UE yn parhau'n sefydlog.

Nid oedd 78 o fusnesau Cymru yn allforio i bartneriaid y tu allan i'r UE mwyach (gostyngiad o 2.6%) ond cynyddodd nifer y busnesau sy'n mewnforio gan bartneriaid y tu allan i'r UE yn sydyn 1,442 (cynnydd o 16.4%).

Rhwng 2020, pan ymadawodd y DU â'r UE ac aeth i mewn i gyfnod pontio Brexit, a 2024, gwnaeth nifer y busnesau yng Nghymru sy'n mewnforio o wledydd y tu allan i'r UE bron i ddyblu o 5,404 i 10,253 (cynnydd o 89.7%). Gellir gweld hyn yn Ffigur 10.

**Ffigur 10: Nifer y busnesau yng Nghymru sy'n masnachu â phartneriaid y tu allan i'r UE (2016-2024)**




Ffynhonnell: **[Ystadegau masnach nwyddau rhanbarthol y DU wedi'u gwahanu yn ardaloedd daearyddol llai]** (Llywodraeth y DU, 2026)

# 6. Pam y gallai Brexit effeithio'n anghymesur ar Gymru?

## Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn credu bod Brexit yn effeithio’n anghymesur ar Gymru.

Mae dau brif reswm am hyn, sef: (i) bod Cymru’n fwy dibynnol ar allforio nwyddau i’r UE na’r DU gyfan, a (ii) bod daearyddiaeth yn rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw mewn trefniadau rhwng y DU a’r UE.


### Dibyniaeth ar allforio i’r UE

**Mae gan Gymru ganran uwch o allforion yr UE na’r DU, a chanran is o fewnforion. Mae’r bylchau hyn mewn canrannau wedi tyfu ers Brexit. Mae’r bwlch rhwng allforion a mewnforion Cymru i’r UE ac o’r UE hefyd wedi parhau i fod yn llydan.**

Mae Ffigur 11 isod yn dangos y ffactorau hyn a graddau gwarged masnach sylweddol fwy Cymru â’r UE (h.y. allforio mwy nag y mae’n ei fewnforio). Mae hyn yn dod â chyfleoedd a risgiau, gan gynnwys mwy o gysylltiad â threfniadau rhwng y DU a’r UE ac â pholisi masnach yr UE.

Dyma un o’r rhesymau pam mae llawer yn y fantol i Gymru o ran cysylltiadau rhwng y DU a’r UE. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru hefyd ystyried datblygiadau’r UE yng ngoleuni **ymrwymiad Llywodraeth y DU** i ddilyn rhai o’i rheolau.

**Ffigur 11: Canran y mewnforion a'r allforion o'i gymharu â'r DU (yn ôl gwerth; 2025)**




Ffynhonnell: **Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig** (Llywodraeth Cymru, 2026)

## Daearyddiaeth

**Fel y dangosir ar Ffigur 12, mae daearyddiaeth yn rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw mewn trefniadau rhwng y DU a'r UE, yn enwedig o ran ynys Iwerddon.**

Yn gyntaf, yn wahanol i Loegr a'r Alban, nid oes gan Gymru lwybrau llongau uniongyrchol i Ogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na all fanteisio ar lwybrau masnach mwy dirwystr o dan Fframwaith Windsor. Mae cysylltiadau uniongyrchol Cymru ag Iwerddon yn golygu bod allforion sy'n dod i mewn i'r UE yn Iwerddon yn wynebu gofynion mwy cymhleth o dan y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Yn ail, mae lleoliad porthladd Caergybi ar Bont Dir y DU yn golygu bod Cymru'n agored i broblemau fel **cau'r porthladd yn rhannol** ym mis Rhagfyr 2024. Gwerth y fasnach aeth trwy'r porthladd **bron i hanner biliwn yn llai** na'r flwyddyn flaenorol, o ganlyniad.

Yn drydydd, mae nifer y **llwybrau llongau uniongyrchol** rhwng Iwerddon a thir mawr yr UE wedi cynyddu ers Brexit - o ran llwybrau newydd a llwybrau a oedd eisoes wedi'u sefydlu ac sy'n cynyddu capasiti i ateb y galw.

Am y rhesymau hyn, dilynodd Aelodau o'r Chweched Senedd yn agos lwybrau dargyfeirio masnach i ffwrdd o borthladdoedd Cymru.

## Ffigur 12: Llwybrau masnach allweddol rhwng Prydain Fawr, ynys Iwerddon a'r UE

